# Cneuen

(ffyddlondeb / gwerthfawrogi / ymddiriedaeth)

Doedd pethau ddim yn iawn o bell ffordd. Yn gyntaf daeth pla a lledu drwy'r holl wlad. Salwch enbyd oedd hwn a phobl yn marw wrth y miloedd. Hwn oedd y Pla Du. Roedd y pla ar ei waethaf yn y trefi a'r dinasoedd lle roedd pobl yn byw yn agos at ei gilydd. Roedd y strydoedd yn gulion ac yn fudr a doedd ryfedd yn y byd fod haint yn lledu gan nad oedd dreiniau addas yn bodoli.

Yn ninas Norwich ac iddi boblogaeth oddeutu 30,000, bu farw tua 10,000 o bobl – un o bob tri. Gadawyd y cyrff i bydru gan nad oedd digon o bobl yno i'w claddu. Ac wrth gwrs roedd hyn yn golygu fod mwy o heintiau yn lledaenu ar draws y wlad. Cyfnod anodd a digalon iawn oedd cyfnod y Pla Du.

Yna, wedi i'r pla ddirwyn i ben, doedd dim digon o ddynion i drin y tir a chynaeafu'r cnydau a phen draw hyn oedd prinder bwyd, yn enwedig i'r bobl dlawd. Ond fel petai hyn ddim yn ddigon roedd brwydro mawr yn mynd rhagddo rhwng Lloegr a Ffrainc. Ym 1372 ymunodd Sbaen â Ffrainc i frwydro yn erbyn Lloegr. Bu brwydr fawr ar y môr a gorchfygwyd Lloegr. Carcharwyd llawer iawn o forwyr Lloegr. A'r hydref hwnnw ni chafwyd cynhaeaf a bu'r gaeaf hwnnw yn un pryderus iawn i'r teuluoedd.

Daeth y gwanwyn a'r Pasg. Tybed a oedd pethau'n mynd i wella? Wel, nid i un wraig oedd yn byw yn Norwich, beth bynnag. Bythefnos ar ôl i'r Pasg fynd heibio, cafodd ei tharo'n wael. Gwaethygodd ei chyflwr ac ar y dydd Mercher roedd pawb o'i chyfeillion yn meddwl yn siŵr ei bod am farw. Ar y Sul canlynol aeth yr offeiriad i'w gweld gyda chroes yn ei law. Croes fechan oedd hon gyda delw o Iesu Grist arni.

"Edrychwch ar y groes yma," meddai'r offeiriad wrthi. "Byddwch yn gadarn a chryf." Ar y cychwyn roedd y wraig yn rhy wan i symud ei llygaid. Ymhen rhai munudau agorodd ei llygaid ac edrychodd ar y groes. Yna, dyma'r ystafell yn mynd yn dywyll, dywyll. Credai ei bod yn mynd i farw. Ond roedd y boen wedi diflannu, wedi diflannu'n gyfan gwbl. Dechreuodd weld pethau hyfryd a diddorol yn ei meddwl. Roedd y cyfan mor fyw!

Yn raddol daeth Julian yn well. Ar ôl iddi wella dechreuodd ysgrifennu am ei phrofiadau. Yn wir hi oedd y ferch gyntaf erioed i sgrifennu llyfr yn Saesneg am yr hyn a welodd ac am y profiadau a gafodd.

Un o'r pethau a welodd Julian oedd, "rhywbeth bychan, bron yr un maint â chneuen. Roedd yn grwn fel pêl." Roedd y "peth" hwn ar gledr ei llaw.

"Beth ydio?" gofynnodd iddi'i hun.

Daeth ateb iddi, "Mae hwn yn cynnwys popeth sydd wedi'i wneud ac yn mynd i gael ei wneud." Yna daeth mwy o wybodaeth iddi, "Mae hwn yn bod am fod Duw yn dy garu di."

Ac o'r "peth" bychan hwn y daeth Julian i gredu tri pheth:

- mae Duw wedi gwneud popeth
- mae Duw yn caru popeth
- mae Duw yn gofalu am bopeth.

Teimlai Julian fod Duw yn dweud wrthi fod pethau drwg yn digwydd yn y byd ond, yn y diwedd, byddai popeth yn iawn. Bydd popeth yn dda yn y diwedd. Meddai Julian yn ei llyfr, "Yn y geiriau yna rydw i'n deall un o gyfrinachau Duw. A phan fyddwn yn deall y gyfrinach yna mi fyddwn ni'n deall wedyn pam fod Duw yn gadael i bethau drwg ddigwydd yn y byd. Yn y cyfamser, mae'n rhaid i ni gofio y bydd popeth yn iawn."

Adnod: "...yn Nuw yr wyf yn ymddiried heb ofni."
Salm 56:11

Gweddi: Pan fydda i'n ddigalon ar brydiau wnei di fy helpu, O Dduw, i weld y gorau ym mhawb. Amen.

Trafod:

- Pam rydych chi'n credu fod Duw yn gadael i bethau drwg ddigwydd yn y byd?
- Chwiliwch am fwy o hanes Julian o Norwich a'i gweledigaethau.